NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Trawsblannu aren gyda chymorth robot

25 Ebrill 2018

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae trawsblannu aren gyda chymorth robot yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Gellir defnyddio'r driniaeth hon ar gyfer pobl ordew na fyddent fel arall yn gallu cael trawsblaniad aren, ond dim ond os ydynt yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau. Mae hyn oherwydd yr ansicrwydd ynghylch ei heffeithiau hirdymor a chymhlethdodau difrifol.

Ar gyfer pobl a allai gael trawsblaniad aren drwy lawdriniaeth agored, dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir rhoi'r driniaeth hon. Mae hyn am nad oes tystiolaeth ddigonol ynghylch pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw.

Mae trawsblaniad aren yn driniaeth effeithiol ar gyfer pobl y mae eu harennau'n methu. Mae trawsblaniad aren gyda chymorth robot yn dechneg 'twll clo' lle mae'r llawfeddyg yn defnyddio robot i'w helpu gyda'r llawdriniaeth. Y nod yw gwneud toriadau llai (gyda'r mwyaf tua 7cm), ceisio sicrhau bod llai o waed yn cael ei golli yn ystod llawdriniaeth a lleihau amser gwella.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth a dylai eich gweithiwyr gofal iechyd proffesiynol siarad â chi am yr astudiaeth ymchwil os yw'n berthnasol i chi. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

ISBN: 978-1-4731-2932-0

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights